# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 12 Mehefin 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

*Atebwyd y cwestiynau gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ar ran Prif Weinidog Cymru.*

### Cydlynu Polisïau Trawsbynciol

**Q11 Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y modd y cydlynir y polisïau y mae'n gyfrifol amdanynt sydd yn rhychwantu adrannau eraill? (OAQ11876)

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German):** Prif Weinidog Cymru sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am gydlynu polisïau yn y Cabinet. Yr ydym yn ymdrin â'r themâu trawsbynicol drwy gynlluniau'r Cynulliad a chynlluniau gweithredu ategol. Mae Prif Weinidog Cymru yn cadeirio is-bwyllgorau'r Cabinet ar ddatblygu cynaliadwy, Cymru a'r byd a Corus.

### 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'

**Q12 Elin Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad yn amlinellu pa rai o'r cynigion yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru' a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn y chwe mis nesaf? (OAQ11863) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Y Cytundeb Partneriaeth (Gogledd Cymru)

**Q13 Peter Rogers:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar effeithiolrwydd y cytundeb partneriaeth yng ngogledd Cymru? (OAQ11848)

**Michael German:** Ers gwneud y cytundeb, yr ydym wedi datblygu cynigion radicalaidd ar gyfer cyfeiriad y gwasanaeth iechyd yn y dyfodol. Yr ydym hefyd wedi penodi Comisiynydd Plant Cymru ac wedi sicrhau deddfwriaeth i roi rhagor o bwerau iddo. Yr ydym yn cyfeirio gweithredoedd tuag at ein cymunedau mwyaf eu hanfantais drwy Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Yr ydym wedi cyflwyno llaeth rhad ac am ddim yn yr ysgolion i blant pump i saith oed, gwiriadau deintyddol a phresgripsiynau rhad ac am ddim i bobl dan 25 oed a mynediad am ddim i amgueddfeydd yng Nghymru. Yr ydym hefyd wedi cychwyn y broses o lunio'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol newydd.

Mae'r camau hyn o fudd i bobl gogledd Cymru, ac i bobl Cymru gyfan.

### Addasu Deddfwriaeth Newydd ar gyfer Anghenion Cymru

**Q14 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru ynghylch addasu deddfwriaeth newydd yn San Steffan er mwyn sicrhau cyfle i'r Cynulliad Cenedlaethol ei haddasu ar gyfer anghenion Cymru? (OAQ11849)

**Michael German:** Mae Prif Weinidog Cymru wedi cael trafodaethau amrywiol gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar ystod o faterion, gan gynnwys anghenion Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol mewn unrhyw ddeddfwriaeth sydd ar y gweill.

**Materion Ewropeaidd (Trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru)**

**Q15 Peter Black:** A yw Prif Weinidog Cymru wedi cael trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am faterion Ewropeaidd? (OAQ11872)

**Michael German:** Mae Prif Weinidog Cymru yn cwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rheolaidd i drafod amrediad o faterion, gan gynnwys yr agenda Ewropeaidd.

**Ymgynghori â'r Comisiwn Ewropeaidd ar Gydlyniant**

**Q16 Phil Williams:** Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn bwriadu sicrhau y rhoddir ystyriaeth i safbwyntiau'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod yr ymgynghori â'r Comisiwn Ewropeaidd ar gydlyniant? (OAQ11866) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Perthynas y Cynulliad â Byd Busnes**

**Q17 Christine Chapman:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'r cyrff perthnasol ynghylch datblygu perthynas y Cynulliad â byd busnes ymhellach? (OAQ11874) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynadleddau Tramor**

**Q18 Rhodri Glyn Thomas:** A fydd Prif Weinidog Cymru yn cynrychioli'r Cynulliad Cenedlaethol mewn unrhyw gynadleddau tramor yn ystod y flwyddyn nesaf? (OAQ11861) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ymgynghori â'r Comisiwn Ewropeaidd ar Lywodraethu**

**Q19 Dafydd Wigley:** Pa rôl y mae Prif Weinidog Cymru yn ei ragweld ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod yr ymgynghori â'r Comisiwn Ewropeaidd ar lywodraethu? (OAQ11865) ***Tynnwyd yn ôl.***

**'Rhoi Cymru'n Gyntaf' (Gwell Gwasanaethau Cyhoeddus)**

**Q20 Cynog Dafis:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad yn esbonio sut y mae'r ffordd y rhoddir y cynigion polisi yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' ar waith yn cyfrannu at well gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ11860) ***Tynnwyd yn ôl.***

**'Gwellcymru.com' a 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'**

**Q21 Jocelyn Davies:** Beth yw'r diweddaraf am y berthynas rhwng y cynigion yn 'Gwellcymru.com' a'r rhaglen a ddisgrifir yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ11867) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Pobl yng Nghymru sydd yn Agored i Niwed**

**Q22 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'i gydweithwyr yn San Steffan am y mesurau i helpu'r bobl yng Nghymru sydd yn agored i niwed? (OAQ11875) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Materion Trawsbynciol**

**Q23 Janet Ryder:** Yn rhinwedd ei swydd fel cydlynydd datblygu polisi, sut y mae Prif Weinidog Cymru yn asesu llwyddiant Llywodraeth Cymru i wneud materion trawsbynciol yn rhan annatod o holl bolisïau'r Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ11864) ***Tynnwyd yn ôl.***